



Amcan Llesiant 15

Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Mae'r penawdau hyn yn seiliedig ar egwyddorion llywodraethu da o [Cyflawni Llywodraethu Da yn y Llywodraeth: Fframwaith \(CIPFA/Solace, 2016\)](#)

Ymrwymiaadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
A - Uniondeb a Gwerthoedd <i>(Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith)</i>		
Byddwn yn parhau i ddatblygu trefniadau llywodraethu corfforaethol yn unol â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Gweithredu Asesiad Corfforaethol cytunedig Swyddfa Archwilio Cymru ac egwyddorion cenedlaethol cyflawni llywodraethu da. <i>(Cam gweithredu rhif 12424)</i>	✓	Rydym wedi cysoni ein cynllun gweithredu llywodraethu corfforaethol i Egwyddorion Llywodraethu Da CIPFA SOLACE. Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd wedi'i addasu i gydweddu â'r egwyddorion diweddaraf hyn. Rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu o gymharu ag egwyddorion CIPFA SOLACE ac roeddent yn dderbyniol yn ôl adolygiad Archwilio Mewnol. Ar gyfer 2018/19, rydym wedi ychwanegu Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau fel Amcan Llesiant.
Byddwn yn darparu strategaeth gofal cwsmeriaid i sicrhau ein bod yn cyrraedd disgwyliadau ein cwsmeriaid ond gan sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cefnogi cyfathrebu'r Cyngor a'i amcanion. <i>(Cam gweithredu rhif 12428)</i>	✘	Mae safonau gofal cwsmeriaid yn cael sylw fel rhan o becyn cyfathrebu newydd sy'n darparu safonau ac arweiniad i unrhyw un sy'n cyfathrebu â Chyngor Sir Caerfyrddin neu ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Strategaeth Gofal Cwsmeriaid ddrafft i'w chwblhau a'i gweithredu yn haf 2018.
Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr. <i>(Cam gweithredu rhif 12429)</i>	✓	Mae strategaeth ddrafft wedi'i chwblhau a'r nod yw ei rhoi gerbron y Tîm Rheoli Adrannol i'w chymeradwyo a sicrhau ei bod yn destun y broses gwneud penderfyniadau yn ystod 2018/19.
Byddwn yn adolygu ein Rheolau Gweithdrefn Ariannol. <i>(Cam gweithredu rhif 12430)</i>	✓	Mae adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi bod ac mae swyddogion ac uwch-reolwyr perthnasol wedi rhoi adborth. Wedi i'r holl sylwadau a roddwyd fel adborth gael eu rhoi ar waith, bydd y Rheolau'n cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Adrannol i'w cymeradwyo.
Byddwn yn hyrwyddo polisiau a gweithdrefnau Ariannol, Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr yr Awdurdod. <i>(Cam gweithredu rhif 12431)</i>	✘	Pan fydd y rheolau gweithdrefn ariannol a'r strategaeth gwrth-dwyll wedi eu cymeradwyo, byddwn yn hyrwyddo'r rhain ledled yr Awdurdod.
Byddwn yn Cau ac yn Archwilio'r Cyfrifon o fewn yr amserlenni priodol. <i>(Cam gweithredu rhif 12434)</i>	✓	Caewyd y Cyfrifon erbyn 30 Mehefin, 2017 o fewn yr amserlen briodol. Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Gorffennaf, 2017.
B – Bod yn agored ac ymgysylltu <i>(Sicrhau ein bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid)</i>		
Byddwn yn datblygu ymhellach ymagweddau ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio'r Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12435)</i>	✘	Mae adolygiad o'r trefniadau presennol ar y gweill gyda'r nod o ddatblygu strategaeth ddrafft newydd a phegyn cymorth. Fodd bynnag, mae oedi wedi bod. Bydd hyn yn cael blaenoriaeth yn ystod dau chwarter cyntaf 2018-19.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn gwahodd Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i gysoni'r dyddiadau cau o ran Rheolau Sefydlog a Rheolau'r Weithdrefn Gaffael ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Rhybudd o Gynnig, Cwestiynau a Deisebau. <i>(Cam gweithredu rhif 12437)</i></p>	✓	<p>Cafodd newidiadau i'r Rheolau Sefydlog eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 24ain Mai 2017.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgorau Craffu yn ystyried manteisio'n well ar gyfleoedd i herio cynigion a phenderfyniadau sy'n herio newid. <i>(Cam gweithredu rhif 12438)</i> O Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau</p>	✓	<p>Yn dilyn yr etholiadau yn 2017 bellach mae gan y Pwyllgorau Craffu Gadeiryddion newydd sydd eisoes wedi dangos newid yn y feddylfryd a rhai syniadau newydd gyda'r holl aelodau'n cael hyfforddiant ymsefydlu.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol ar gyfer pob pwyllgor craffu ynghylch y gwasanaethau dan eu portffolio.</p> <p>Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Fforwm y Pwyllgorau Craffu wedi penderfynu ailgyflwyno rhag-gyfarfodydd Craffu i fynd drwy'r adroddiadau ar yr Agenda ar gyfer pob cyfarfod. Mae Cadeirydd pob Pwyllgor Craffu wedi derbyn hyfforddiant a chanllawiau arfer gorau.</p> <p>Roeddem wedi parhau i gynnal seminarau cyllideb adrannol anffurfiol i aelodau etholedig fel rhan o broses y gyllideb, gan alluogi aelodau i herio'r gyllideb a'r cynigion newid gwasanaeth ar gyfer canolfan gostau pob gwasanaeth.</p> <p>Cafodd Aelodau gyfle pellach i archwilio ac adolygu cynigion Newid Gwasanaeth mewn cyfarfodydd Craffu ffurfiol ar y cyd â Chynlluniau Busnes Adrannol.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod y Swyddogion yn gweithio gyda'r cynghorwyr i nodi lefel y wybodaeth y mae cynghorwyr am ei gweld ar opsiynau ar gyfer newid i wasanaeth, er mwyn gwella tryloywder o ran y broses gwneud penderfyniadau. <i>(Cam gweithredu rhif 12439)</i> O Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau</p>	✓	<p>Mae Asesiad Effaith Integredig diwygiedig newydd a Wynebddalen newydd ar gyfer y Pwyllgor wedi cael eu cyflwyno yn dilyn hyfforddiant ac adborth yn sgil y cyfnod prawf.</p> <p>Roedd cynlluniau busnes adrannol ynghlwm wrth gyllidebau drafft yn y cyfarfodydd Craffu.</p> <p>Fel rhan o'r gwelliant parhaus ym mhroses y gyllideb, bydd pob Cyfarwyddwr Adrannol a swyddog allweddol yn cwrdd â'i Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb er mwyn adolygu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer seminarau ynghylch y gyllideb.</p>
<p>Byddwn yn adolygu cylch gwaith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Gweithgor Adolygiad Corfforaethol er mwyn egluro eu cyfrifoldebau o ran asesu ac adolygu trefniadau llywodraethu. <i>(Cam gweithredu rhif 12440)</i> O Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau</p>	✘	<p>Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Gweithgor Adolygu Corfforaethol yn endidau ar wahân:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei arwain gan y swyddog ac yn mynd i'r afael â materion llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol • mae'r Gweithgor Adolygu Corfforaethol yn mynd i'r afael â materion cyfansoddiadol ar lefel aelodau ac felly mae'n drawsbleidiol <p>Er hynny, byddwn yn ailedrych ar gylch gorchwyl y grŵp i fodloni ein hunain bod y dibenion gwahanol</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		yn cael eu gwneud yn glir. Mae cylch gorchwyl y grŵp yn parhau i fod yn glir ac i fodloni ein hunain bod y gwahanol ddibenion yn aros felly, byddwn yn asesu ac yn adolygu trefniadau llywodraethu'r ddau Grŵp pan fo'r angen.
Byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau i flaenoriaethu a helpu gwasanaethau i ymgysylltu â'r bobl iawn ar yr adeg iawn ac i gyflawni blaenraglen waith Marchnata a'r Cyfryngau. <i>(Cam gweithredu rhif 12441)</i>	✓	Mae blaenraglen waith marchnata a'r cyfryngau ar gyfer 2017/18 wedi cael ei chwblhau ac mae adroddiad yn ei chylch wedi ei chyflwyno i'r holl Dimau Rheoli Adrannol. Bydd y cynllun newydd ar gyfer 2018/19 yn cyd-fynd â dogfen y Cyngor Sir, 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf', a bydd ar waith erbyn dechrau mis Mai.
Byddwn yn cynnal ac yn datblygu prif lwyfannau digidol yr awdurdod sef y wefan gorfforaethol, y fewnrwyd, yr ystafell newyddion, Darganfod Sir Gâr, a gwefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o ymgyrch 'Ar-lein Amdani' i annog rhagor o bobl i ryngweithio â'r cyngor yn ddigidol. <i>(Cam gweithredu rhif 12442)</i>	✓	Mae'r 4 prif lwyfan digidol i gyd ar waith bellach. Cafodd y wefan gorfforaethol newydd sy'n gwbl ddwyieithog ac ymatebol ei lansio ym mis Chwefror 2018. Mae adran newydd wedi'i chyflwyno ar safe Darganfod Sir Gâr i annog busnesau bach i hyrwyddo manau i aros. Mae defnydd da dal yn cael ei wneud o'r Fewnrwyd ac mae grŵp swyddogion wedi'i sefydlu bellach gyda golwg ar ganiatáu i staff nad oes ganddynt fynediad trwy un o ddyfeisiau'r cyngor gyrchu gwybodaeth y fewnrwyd o'u dyfeisiau personol eu hunain. Rhoddir sylw i'r Ystafell Newyddion yn 2018/19. Bydd safe'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei adolygu yn ystod y misoedd nesaf gan grŵp cyfathrebu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau gwell defnydd ac yn y gobaith o greu ardal glir i gyfathrebu camau a ffrydiau gwaith y bwrdd.
Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu GeoDiscover ac yn parhau i'w gyflwyno ledled y Cyngor, ynghyd â defnydd llawn o'r Gazetteer. <i>(Cam gweithredu rhif 12444)</i>	✓	Defnyddir y <i>Local Land and Property Gazetteer (LLPG)</i> i chwilio am y cyfeiriad ac fe'i diwedderir yn ddyddiol i sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau newydd yn cael eu nodi. Rydym yn datblygu Geodiscoverer yn barhaus - ychwanegu mwy o haenau, gwella ymarferoldeb, diweddarau'r data fel sy'n ofynnol ac mae'n fyw ar draws yr awdurdod i'r holl staff. Rydym yn parhau i gyfarfod â Chynghorwyr Sir i hyrwyddo'r defnydd o Geodiscoverer.
Byddwn ni, fel rhan o'r Strategaeth Trawsnewid Digidol, yn parhau i ymgysylltu a deall anghenion yr Adran i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol. <i>(Cam gweithredu rhif 12445)</i>	✓	Cynhaliwyd dau seminar Trawsnewid Digidol ym mis Hydref er mwyn hwyluso ymgysylltiad a dealltwriaeth o anghenion yr adran ac er mwyn eu helpu i ddarparu gwasanaethau effeithiol. Mae'r Gwasanaethau TGCh yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Timau Rheoli Adrannol i drafod Cynllunio Busnes ac i nodi cyfleoedd a phrosiectau newydd. Mae'r Gwasanaethau TGCh yn helpu adrannau â'u gweithgareddau Cynllunio Busnes eu hunain. Cynhaliwyd seminar TGCh i aelodau etholedig ym mis Hydref er mwyn trafod anghenion a rhoi bod i gyfle i gael ymgynghoriad ystyrlon a mewnbwn. Mae sesiynau un i un â holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol wedi cael eu cynnal. Ysgolion – Cytundeb Lefel

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
		Gwasanaeth 5 mlynedd a strategaeth TGCh i ysgolion wedi cael eu drafftio ac ymgynghori wedi digwydd yn eu cylch, a bellach wedi'u cwblhau. Mae rhoi cymorth ar lawr y swyddfa a sicrhau presenoldeb yn swyddfeydd y Cyngor i helpu ac ymgysylltu â chwsmeriaid ar faterion TGCh wedi cael ei dreialu ac roedd yn llwyddiant.
Byddwn ni'n parhau i ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) oddi mewn i'r terfyn amser Statudol - fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i roi pwyslais ar atebion da a digonol. (2.1.1.17) (Canlyniad 2016/17 - 94.43% /Targed 2017/18 - 90%)	✓	O'r 1,095 o geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod 2017/18, ymatebwyd i 96.99% ohonynt cyn pen 20 diwrnod gwaith. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn dangos gwelliant.
Ein nod yw cynyddu defnydd y cyhoedd o wefan y Cyngor (ICT/005) (Canlyniad 2016/17 - 1,278,152 o ymweliadau / Targed 2017/18 1,400,000 o ymweliadau)	✓	Cafwyd 1,415,459 o sesiynau defnyddiwr ar wefan y Cyngor yn ystod 2017/18.
Byddwn yn anelu at fwyafswm incwm derbyniadau cyfalaf i gefnogi rhaglen gyfalaf o £2.7m (2.1.2.12) (Canlyniad 2016/17 - 90% £2.36m / Targed 2017/18 100% £2.71m)	✘	£1,938,676 o dderbyniadau cyfalaf wedi eu cyflawni yn ystod 2017/18, mae hyn yn 71.42% o'r hyn a dargedwyd. Yn anffodus methwyd cwblhau rhai trafodion sylweddol eleni ond disgwylir y byddant yn cael eu cwblhau yn ystod 2018/19.
C – Gwneud gwahaniaeth (Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy)		
Byddwn yn cefnogi gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn arwain ar ddatblygiad Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, craffu arno, a strwythur grŵp thematig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. (Cam gweithredu rhif 12432)	✓	Mae'r cymorth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn digwydd drwy gydol y flwyddyn gan gymryd yr awenau o ran y Cynllun Llesiant, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017 a datblygiad y Cynllun Llesiant sydd i'w gyhoeddi ym mis Mai 2018. Mae'r broses hon wedi cynnwys nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu i nodi amcanion drafft ar gyfer y Cynllun Llesiant, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant, a hefyd i ddatblygu camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a lywiodd ddatblygiad y Cynllun Llesiant. Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mis Medi i Bwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau y Cyngor fel rhan o drefniadau craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn yn parhau hyd nes bod y Cynllun Llesiant yn cael ei gyhoeddi a bod trefniadau monitro'n cael eu gwneud. Wedyn bydd y dull a'r trefniadau craffu yn cael eu hadolygu.
Ar gyfer 2018/19 byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol gyfnerthedig, a fydd yn cynnwys Amcanion Llesiant a Phrif Flaenoriaethau Amcanion Gwella y Cyngor. (Cam gweithredu rhif 12447)	✓	Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol erbyn diwedd Mehefin 2018. Mae'r cynllun newydd yn cyfuno'r pedwar cynllun presennol - Strategaeth Gorfforaethol flaenorol 2015-20, ein Hamcanion Gwella, ein Hamcanion Llesiant a 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'. Bydd y modd y caiff y cynllun hwn ei gyflawni yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn datblygu cyfres o Ddangosyddion Deilliannau Sir Gaerfyrddin gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn rhoi sylw i'r rhain, lle gallwn, fel corff cyhoeddus, yn ein Hamcanion Llesiant a Chynlluniau Gweithredu. <i>(Cam gweithredu rhif 12448)</i>	✓	Nid yw data perfformiad wedi cael ei riportio i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn gan i'r pwyslais fod ar lunio'r cynllun llesiant. Pan fydd Dangosyddion Deilliannau Sir Gaerfyrddin wedi cael eu nodi, bydd perfformiad yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Byddwn yn adolygu polisi'r Cyngor ynghylch gwaredu eiddo diangen ac yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau adfywio. <i>(Cam gweithredu rhif 12449)</i>	x	Adolygwyd y Polisi. Mae'r gwaith o gwblhau'r fersiwn wedi'i atal am y tro, ac mae'r broses o werthu eiddo wedi bod yn destun adolygiad Archwilio, i sicrhau y cyfrifir yn briodol am unrhyw faterion a nodwyd gan Archwilio yn y polisi diwygiedig.
Byddwn yn cynyddu % yr aelwydydd sy'n cyrchu'r Rhyngwrwd yn Sir Gaerfyrddin ar sail canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru <i>(ICT/006)</i> <i>(Canlyniad 2014/15 - 76% / Targed 2016/17 - 80%)</i>	✓	Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 mae gan 83% o'r aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin fynediad i'r rhyngwrwd . Mae hwn yn welliant ar yr arolwg blaenorol a fu yn 2014/15 gyda chanlyniad o 76%. Er gwaethaf y gwelliant, mae ein safle yng nghydestun Cymru Gyfan un safle'n is sef 15fed ac nid 14eg.
D – Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud <i>Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl</i>		
Byddwn yn monitro'r Cynlluniau Gweithredu manwl ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor am 2017/18 drwy gydol y flwyddyn, ac yn adrodd ynghylch unrhyw ymyriadau angenrheidiol sy'n ofynnol i'w cadw ar y trywydd iawn. <i>(Cam gweithredu rhif 12450)</i>	✓	Mae dyletswydd arnom i gymryd pob cam rhesymol i fodloni ein Hamcanion Llesiant. Drwy gydol y flwyddyn cafodd cynlluniau gweithredu yr holl Amcanion Llesiant eu monitro'n chwarterol a'u diweddarau ar System Monitro Perfformiad a Gwella y Cyngor (PIMS).
Byddwn yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath, ac yn adrodd am y buddion yn achos pob contract sydd dros £1 filiwn. <i>(Cam gweithredu rhif 12451)</i>	✓	Rydym yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ac yn adrodd ar y rhain. Roedd yr Adroddiad Budd Cymunedol yn nodi am bob £1 a werir ar y gwaith hwn, fod £1.92 yn cael ei ail-fuddsoddi yn economi Cymru a bod 95% yn cael ei wario gyda Mentrau Bach a Chanolig eu Maint yng Nghymru.
Byddwn yn gweithredu fel galluogwr a chyfryngwr ar gyfer trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau ledled y Cyngor eu darparu i gwsmeriaid trwy gynyddu cyfleoedd i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor drwy dechnolegau digidol. <i>(Cam gweithredu rhif 12452)</i>	✓	Cynnydd wedi'i wneud o ran Prosiectau Trawsnewid Digidol pellach ac maent wedi eu rhoi ar waith. Lanswyd yn llwyddiannus y Wefan Ymatebol Symudol newydd a'r plattform newydd Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid (GWASANAETH Firmstep), gyda'r Gwasanaeth Gwastraff Gardd fel y gwasanaeth cyntaf. Mae'r system taliadau ar-lein Prydau Ysgol Arlwyo di-arian drwy ParentPay wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cael ei chroesawu, ac mae pob Ysgol Uwchradd bellach yn gweithredu'r system newydd a byddwn yn dal ati i'w chyflwyno i'r holl Ysgolion Cynradd dros y 12 mis nesaf. Mae System Archebu Apwyntiadau Ar-lein y Cofrestrwyddion yn cael ei llunio ar hyn o bryd. Bydd y cam gweithredu hwn yn parhau i mewn i 18/19.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynhyrchu Cynllun Gwasanaeth Digidol tymor hir sy'n galluogi tenantiaid i wneud eu busnes ar-lein. Sicrhau bod systemau yn cael eu datblygu i ddarparu gwell gwybodaeth. <i>(Cam gweithredu rhif 12852)</i></p>	✓	<p>Mae ein ffocws wedi bod ar adolygu'r System Rheoli Tai bresennol, yn enwedig datblygu Gosodiadau Seiliedig ar Ddewis, sy'n galluogi tenantiaid i gael golwg ar-lein ar dai Cyngor sy'n wag a gwneud cais amdanynt. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda TG ynghylch datblygu cynllun, ac mae llawer o fentrau wedi'u datblygu a'u cyflwyno, er enghraifft negeseuon testun dwyieithog a <i>My Account</i>. Rydym yn y camau olaf o ran dyfarnu contract i ddarparu'r meddalwedd.</p> <p>Rydym hefyd wrthi'n mynd allan i dendr ar gyfer darparu'r meddalwedd Gwasanaethau Gofal newydd (Gofal Cartref a Phreswyl) i ddarparu system rheoli gofal a rhestru newydd.</p> <p>Mae rhagor o ymchwil a dadansoddi yn cael ei wneud o ran darparu'r tai addas a systemau meddalwedd <i>Public Protect</i>.</p>
<p>Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael ystod o fanteision drwy weithio ar y cyd ym maes rheoli eiddo ac i leihau cost dal a rheoli eiddo drwy nodi cyfleoedd tymor byr a thymor hir. <i>(Cam gweithredu rhif 12453)</i></p>	✓	<p>Roedd Ffrwd Gwaith Cydweithredu Ystadau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal i gwrdd yn fisol ac yn darparu adroddiad cynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2018. Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus beidio â thrin y Grŵp Cydweithredol Ystadau fel Ffrwd Gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae'r Grŵp yn parhau i gwrdd i wneud cynnydd o ran y cyfleoedd cydweithredu a nodwyd. Yn ogystal, mae Gweithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Pennaeth Eiddo arwain grŵp cydweithredol rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru newydd sy'n cwmpasu Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, a fydd yn dechrau cyfarfod o fis Mai 2018 ymlaen.</p>
<p>Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu hwb ar gyfer pob gwasanaeth cysylltiedig ag eiddo, fframweithiau a swyddogaethau rheoli'r porth o fewn yr Awdurdod, ac ar gyfer partneriaid rhanbarthol a chleientiaid allanol posibl. <i>(Cam gweithredu rhif 12454)</i></p>	✘	<p>Mae cyfarfodydd rheolaidd â phartneriaid rhanbarthol wedi parhau. Mae'r gwaith o adlinio'r Is-adran Eiddo, yn cynnwys yr adain Ddylunio, wedi cael ei gymeradwyo ac yn cael ei roi ar waith. Mae'r Is-adran Dylunio Eiddo wedi cwblhau Adolygiad TIC yn ddiweddar a bydd cynnydd yn cael ei wneud o ran y cam hwn, ynghyd â rhai eraill a nodwyd, fel rhan o'r Cynllun Gwella cytunedig.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y defnydd o'r ddesg gymorth Hunanwasanaeth TGCh <i>(ICT/002)</i> <i>(2016/17 - 33% / Targed 2017/18 - 35%)</i></p>	✓	<p>44.4% o gwsmeriaid TG wedi defnyddio Desg Gymorth Hunanwasanaeth TGCh, sydd yn welliant rhagorol o gymharu â 33% yn 2016-17.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu nifer y Gwasanaethau Cyngor Trafodiadol sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein. <i>(ICT/003)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 7 / Targed 2017/18 - 10)</i></p>	✓	<p>Ar ddiwedd 2017/18 mae 13 o Wasanaethau Cyngor Trafodiadol ar gael i'r cyhoedd ar-lein, sy'n uwch na'r targed disgwyliedig o 10.</p>
<p>E – Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi <i>(Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion)</i></p>		
<p>Byddwn yn darparu Llawlyfrau a gwybodaeth berthnasol a chefnogaeth i Gynghorwyr (ar ôl Etholiad 2017) ar y broses ddemocrataidd. <i>(Cam gweithredu rhif 12455)</i></p>	✓	<p>Dosbarthwyd y Llawlyfr Cynghorwyr newydd i'r holl aelodau etholedig ar 15 Mai, gyda chopïau ar y Fewnrwyd a chopïau papur ar gael yn Lolfa'r Aelodau. Fel rhan o'r Rhaglen Ymsefydlu, rydym</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
		wedi darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd ynghylch y Cod Ymddygiad, cyngor ymarferol ar baratoi cyfarfod/gwe-ddarlledu a chyflwyniad i graffu yn Sir Gaerfyrddin. Mae Cyngorwyr hefyd wedi derbyn copi o "Canllaw i Gyngorwyr Newydd Cymru -Mai 2017", sef dogfen gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
Byddwn yn darparu hyfforddiant Côt Ymddygiad i aelodau ar ôl etholiad 2017. <i>(Cam gweithredu rhif 12456)</i>	✓	Rhoddwyd yr hyfforddiant hwn ar 15 Mai 2017.
Byddwn yn datblygu Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar sail y Fframwaith Ymddygiad. <i>(Cam gweithredu rhif 12457)</i>	✗	Mae ymgynghori wedi bod â'r Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn penderfynu ar y prif themâu ar gyfer datblygu ac mae gwerthusiad wedi'i gynnal o Raglen Arweinwyr y Dyfodol. Bydd yr agweddau allweddol hyn bellach yn llywio'r cynigion amlinellol ar gyfer y Fframwaith, ynghyd â chanfyddiadau'r Holiadur 40 Buddsoddwyr mewn Pobl a Chamau Adolygu Rheoli Pobl a Pherfformiad. Bydd y Fframwaith, a gefnogir gan ystod o ddulliau ac adnoddau, yn ategu'r ymddygiadau rheoli ac arwain newydd. Mae sesiwn datblygiadol wedi'i chynllunio eisoes ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei ddatblygu gan y Brif Ffrwd 'Arweiniol' dan y Grŵp Strategaeth Pobl.
Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithlu Strategol i'r Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12458)</i>	✓	Mae'r gwaith wedi dechrau i nodi materion cynllunio'r gweithlu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol. Mae adrannau wedi derbyn data proffil y gweithlu i'w galluogi i gynllunio'r gweithlu ar lefel leol. Bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal gan Bartneriaid Busnes Rheoli Pobl. Bydd unrhyw themâu sy'n deillio o'r gwaith hwn yn rhan o gynllun gweithlu strategol.
Byddwn yn cefnogi'r Fframwaith Rheoli Absenoldeb Salwch Corfforaethol drwy weithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r staff lle bo'r angen a bod y polisi salwch yn cael ei roi ar waith yn gyson. <i>(Cam gweithredu rhif 12459)</i>	✓	Mae'r fframwaith absenoldeb oherwydd salwch erbyn hyn yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth yn y chwarter isaf yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol i drafod salwch a'r camau a gymerwyd i'w leihau, a bod y Penaethiaid Gwasanaeth, tri mis yn ddiweddarach, yn mynd i'r Fforwm Her a Phresenoldeb i drafod tueddiadau o ran bylchau, camau ac argymhellion. Gellir rhannu arferion da a mentrau a rhoi cymorth a chynghor lle mae meysydd i'w datblygu. Mae Rheoli Pobl yn dal i roi cyngor i Benaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr, a chyfrifoldeb yr adrannau yw monitro a chyrraedd eu targedau.
Byddwn yn peilota egwyddorion gweithio ystwyth newydd y Cyngor yn achos ymarferion gweithio ar draws yr Is-adran Rheoli Pobl. Bydd canlyniadau'r peilot hwn yn cael eu defnyddio i lywio cyflwyno gweithio ystwyth ledled y Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12460)</i>	✓	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlwyd tîm prosiect ar draws is-adrannau. 2. Mae'r holl swyddi wedi eu categoreiddio'n rhai ystwyth, rhai yn y maes neu'n rhai sefydlog. 3. Mae'r archwiliad o'r offer TG a'r offer arbenigol wedi'i gwblhau, ac mae offer TG newydd yn cael ei roi i'r timau ar hyn o bryd.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>4. Mae arferion gwaith ar draws yr is-adran wedi cael eu hadolygu ac mae parthau gwaith wedi cael eu nodi.</p> <p>5. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â staff drwy gydol y broses, ac mae adborth o'r sesiynau hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddylunio gofod a llywio'r arweiniad e-ddysgu corfforaethol sy'n cael ei ddatblygu. Mae'r holl wersi a ddysgwyd wedi'u cofnodi ac yn cael eu defnyddio i lywio gwaith y Tîm Cyflawni Gweithio Ystwyth dan arweiniad y tîm Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC).</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod gan y defnyddiwr y ddyfais/dyfeisiau TG priodol i ddarparu ei wasanaeth yn effeithiol. <i>(Cam gweithredu rhif 12461)</i></p>	✓	<p>Fel rhan o'r prosiect Gweithio Ystwyth, mae TGCh yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr y gwasanaeth i'w nodi fel rhai sefydlog, hyblyg, neu weithwyr maes. Rydym yn trafod eu hanghenion gwasanaeth gyda nhw ac yn cytuno pa ddyfais TG fydd yr un fwyaf priodol iddynt. Mae gliniaduron wedi cael eu prynu ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect Ystwyth yn y tîm Trawsnewid i Wneud Cynnydd er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod ganddynt y ddyfais TG briodol sy'n addas i'r ffordd maent am weithio a darparu eu gwasanaeth.</p>
<p>Ein nod yw cadw % y gweithwyr gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion sy'n gadael cyfogaeth yr awdurdod lleol, boed ar sail wirfoddol neu anwirfoddol, i leiafswm <i>(CHR/001)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 6.96% / Targed 2017/18 - 7%)</i></p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 6.42%. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn is na ffigur y llynedd o 6.96%.</p>
<p>Byddwn yn hyrwyddo ymhellach drefniadau pendant o ran rheoli absenoldeb salwch o fewn adrannau i leihau nifer y dyddiau gwaith / shifftiau y bu i bob gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) eu colli oherwydd absenoldeb salwch. <i>(PAM/001)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 10.8 diwrnod / Targed 2017/18 - 9.6 diwrnod)</i></p>	x	<p>Canlyniad 2017/18 - 10.1 o ddiwrnodau. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ond mae wedi gwella o gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol o 10.8 diwrnod. Mae gan Dimau Rheoli Adrannol dargedau, cynlluniau gweithredu a data absenoldeb adrannol y dylid eu monitro a'u dadansoddi yn rheolaidd, i sicrhau y canolbwyntir ar leihau absenoldeb. Mae cymorth ar gael gan Reoli Perfformiad. Fodd bynnag mae'r fforwm Herio ac Adolygu yn nodi ble mae bylchau ac arfer da. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn mynd i gyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol lle bo'r angen, y fforwm her a'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau i drafod y camau maent yn eu cymryd i gyrraedd eu targed.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y gliniaduron a ddefnyddir yn y cyngor i sicrhau ein bod yn symud tuag at weithlu y mae 80% ohono'n hyblyg. <i>(ICT/004)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 42% / Targed 2017/18 - 47%)</i></p>	✓	<p>Gliniaduron yw 53% o'r dyfeisiau TG a ddefnyddir yn y Cyngor, ac mae hwn yn welliant parhaus tuag at weithlu y mae 80% ohono'n hyblyg.</p>
<p>F - Rheoli risgiau, perfformiad ac arian <i>(Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref)</i></p>		
<p>Byddwn yn datblygu Strategaeth Rheoli Risg newydd. <i>(Cam gweithredu rhifau 12462 a 12387)</i></p>	✓	<p>Mae'r strategaeth wedi'i drafftio a chafodd ei chymeradwyo yn y Grŵp Llywio Risg ym mis Medi 2017 ac yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2017.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Ar hyn o bryd mae'r adroddiad yn destun sylw gan y Timau Rheoli Corfforaethol ac Adrannol.
Byddwn yn sicrhau bod Rheoli Parhad Busnes a Chynlluniau Argyfwng yn gweithio gyda'i gilydd ledled yr Awdurdod drwy gyfarfodydd grŵp rheolaidd. <i>(Cam gweithredu rhif 12463)</i>	✓	Cynhaliwyd dau gyfarfod 'ar y cyd' yn 2017/18. Cytunodd y grŵp fod y cyfarfodydd hyn yn parhau i gael eu cynnal bob chwarter. Yr aelodaeth i'w hadolygu erbyn y cyfarfod nesaf i sicrhau bod yr holl swyddogion a gwasanaethau perthnasol yn cael eu cynrychioli ar y grŵp.
Byddwn yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'r holl safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n cael eu defnyddio ganddo yn cael eu nodi a'u rheoli'n addas a digonol. <i>(Cam gweithredu rhif 12464)</i>	✓	Caiff risgiau eu hasesu'n rheolaidd a'u hadolygu ar y cyd â deiliaid adeiladau. Systemau data wedi'u hadolygu a rhaglenni'n cael eu treialu ar hyn o bryd. Mae adroddiadau Gwasanaeth Electronig ac Asesiadau Risg yn cael eu symud i Gronfa Ddata Rheolwr Asedau CIPFA. Mae pob risg yn parhau i gael ei nodi.
Byddwn yn adolygu Asesiad Risg Canolfan Ddata. <i>(Cam gweithredu rhif 12465)</i>	✓	Cwblhawyd Asesiad Risg y Ganolfan Ddata ym mis Medi 2017. Mae TGCh wedi adolygu a diweddarau ei gynlluniau Adfer mewn Argyfwng a Dilyniant Busnes sy'n gyfranwyr allweddol i leihau risgiau yn ein Canolfannau Data.
Byddwn yn datblygu ymhellach drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol y Cyngor e.e. Cynlluniau Busnes i gyrraedd disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dangosfyrddau System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS). <i>(Cam gweithredu rhif 12466)</i>	✓	Roeddem wedi diweddarau'r fformat cynllunio busnes a'n System Monitro Perfformiad a Gwella i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau cynllunio ariannol drwy ddatblygu cysylltiadau amlwg rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a phrosesau cynllunio corfforaethol y Cyngor <i>(Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru)</i> . <i>(Cam gweithredu rhif 12467)</i>	✓	Cafodd yr amserlen Cynllunio Corfforaethol ac Ariannol eu llunio ar gyfer 2018-19 i sicrhau bod prosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol y Cyngor yn cydweddu'n briodol. Rhoddwyd yr Adroddiad Rhagolygon Ariannol gerbron y Bwrdd Gweithredol ar 31ain Gorffennaf 2017, craffwyd arno ac fe'i cymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2018.
Byddwn yn nodi cyllid cyfalaf a refeniw a ddyrannwyd i'n Hamcanion Llesiant ac yn monitro'r modd rydym yn dyrannu adnoddau yn unol â'r blaenoriaethau hyn <i>(Cam gweithredu rhif 12468)</i> <i>(Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru)</i> .	✓	Diweddarwyd y Strategaeth Gorfforaethol newydd, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 18/19, ac mae eitemau gwariant eglur a manwl wedi'u pennu ar gyfer pob un o'r Amcanion Llesiant.
Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod amserlenni cyflawni mewn achosion busnes yn bendant a thrwy adolygu amserlenni mewn ymarferion herio'r Gyllideb gydag Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. <i>(Cam gweithredu 12469)</i> <i>(Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru)</i> .	✓	Cafodd yr holl achosion busnes ac amserlenni oedd yn sylfaen i'r holl gynigion ynghylch arbedion eu cipio a'u defnyddio yn y sesiynau herio'r aelodau a fu yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2017.
Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau rheoli ariannol drwy weithredu ein polisi incwm a chodi tâl. <i>(Cam gweithredu rhif 12470)</i> <i>(Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru)</i> .	✓	Polisi Incwm a Chodi Tâl wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ar 27 Mawrth, 2017
Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau cynllunio ariannol drwy ddiweddarau ein	✓	Cafodd adroddiad strategaeth cronfeydd wrth gefn drafft ei ddiweddarau i adleisio'r sefyllfa wirioneddol

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
strategaeth cronfeydd wrth gefn a'i chyflwyno i'r Cyngor newydd. <i>(Cam gweithredu rhif 11975) (Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru).</i>		fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017 ac fe'i cyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Gweithredol. Mae manylion yr holl gronfeydd wrth gefn wedi'u nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2017. Darperir y wybodaeth fel y bo'n briodol yn ystod yr archwiliad ariannol
Byddwn yn gweithio gydag adrannau ar reoli gwariant fesul categori. <i>(Cam gweithredu rhif 12859)</i>	✓	Fel rhan o'r Gwasanaeth a Rennir gyda thîm Caffael Cyngor Sir Penfro (o 1 Mehefin 2017), mae'r gwaith gyda'r feddalwedd Dadansoddi Gwariant newydd (Atamis) yn parhau er mwyn nodi'r categorïau gwariant gwahanol ym mhob un o'r 5 categori ar draws y ddau Awdurdod. Mae Cynlluniau Categori wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi yn y 3 chategori (Corfforaethol a TGCh, Priffyrdd a Pharciau a Chynnal a Chadw Adeiladau).
Byddwn yn darparu, drwy TGCh, awtomateiddio ac integreiddio prosesau gweithio mewnol a gweithdrefnau i roi bod i arbedion effeithlonrwydd. <i>(Cam gweithredu rhif 12473)</i>	✓	Mae sawl un o'r prosiectau Trawsnewid Digidol cymeradwy wedi parhau i wneud cynnydd ac wedi'u gweithredu. Fel rhan o adolygiad TIC "Beth sy'n gwastraffu eich amser", mae T.G. wedi datblygu 2 broses awtomatig sydd bellach yn FYW sef "Creu Swydd Newydd" a "Hysbysebu Swydd." Datblygiadau a gwelliannau pellach i ddilyn yn 2018/2019. Mae'r system Digwyddiadau a Damweiniau newydd wedi'i hailddatblygu a'i gwella gydag integreiddio gwell i systemau cefn swyddfa fel integreiddio i'n System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS).
Ein nod yw cynyddu % y Dreth Gyngor a gesglir <i>(CFH/007)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 97.05% / Targed 2017/18 - 97.10%)</i>	✓	97.57% o'r Dreth Gyngor oedd yn ddyledus wedi ei gasglu yn ystod 2017/18, sydd yn cydymffurfio â'r targed ac yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
Ein nod yw casglu o leiaf 98% o'r ardrethi annomestig <i>(CFH/008)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 98.2% / Targed 2017/18 - 98%)</i>	✓	99.52% o'r ardrethi annomestig oedd yn ddyledus wedi eu casglu yn ystod 2017/18, mae hwn yn uwch na'r targed ac yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
G – Tryloywder ac atebolrwydd da <i>(Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol)</i>		
Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol manwl am 2016/17 a diweddariad am ein cynnydd o ran y Strategaeth Gorfforaethol. Byddwn hefyd yn cymharu ac yn egluro ein canlyniadau yn erbyn holl Gynghorau eraill Cymru (ar gyfer Dangosyddion Cenedlaethol, canlyniadau 'Arolwg Cenedlaethol Cymru' ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau Rheoleiddiol) gan nodi unrhyw fylchau y mae angen rhoi sylw iddynt). <i>(Cam gweithredu rhif 12474)</i>	✓	Roeddem wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol manwl am 2016/17 a diweddariad am ein cynnydd ar y Strategaeth Gorfforaethol erbyn y dyddiad cau o 31ain Hydref. O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad. <ul style="list-style-type: none"> • wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran arfer ei swyddogaethau; • o ran bodloni'r amcanion gwella mae wedi'u gosod i'w hun; • drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a'r • o ran bodloni unrhyw safonau perfformiad a

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
		<p>bennir gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad hunanosodedig.</p> <p>I sicrhau bod yr adroddiad yn asesiad teg, roedd yr holl Bwyllgorau Craffu wedi archwilio cynnwys craidd yr adroddiad ac wedi archwilio'r adrannau manwl oedd fwyaf perthnasol i'w portffolios Craffu. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi Tystysgrif Cydymffurfio ar gyfer y cyhoeddiad.</p>
<p>Byddwn yn parhau i adrodd ynghylch data perfformiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12475)</i></p>	✓	<ul style="list-style-type: none"> • Yn ystod 2017/18 roedd data perfformiad yn cael ei fonitro'n chwarterol ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a'r Rheolwyr, ac roeddid yn adrodd yn ei gylch bob chwe mis i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor. • Cafodd data perfformiad a chanlyniadau cymharol â Chynghorau eraill yng Nghymru eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 2016/17, a adroddwyd i bob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor. • Ym mis Tachwedd 2017 cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru Dystysgrif Cydymffurfio ddiamod ar Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 2016-17. Roedd adrannau perthnasol o'r Adroddiad Blynyddol wedi'u cyflwyno i bob Pwyllgor Craffu. Pan fydd Dangosyddion Deilliannau Sir Gaerfyrddin wedi cael eu nodi, bydd perfformiad yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
<p>Byddwn yn adolygu'r Llawlyfr Archwilio. <i>(Cam gweithredu rhif 12476)</i></p>	✘	<p>Mae datblygu Llawlyfr Archwilio wedi'i ohirio oherwydd ymrwymiadau gwaith. Rhaid cwblhau hyn erbyn diwedd 2018.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod archwiliad anghymwys ar gyfrifon terfynol 2016/17. <i>(Cam gweithredu rhif 12478)</i></p>	✓	<p>Cyflwynwyd barn ddiamod i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2017</p>
<p>Byddwn yn anelu at sicrhau gwir gyflawniad yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol <i>(6.4.1.3)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 80% / Targed 2017/18 - 90%)</i></p>	✘	<p>Canlyniad 2017/18 -75%. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad. Mae gwaith ychwanegol hefyd wedi ei wneud eleni eto ar y cynllun, ynghyd â swydd Uwch-archwilydd sydd yn wag am dri mis. Wrth ystyried y gwaith ychwanegol, y canlyniad fyddai 92.2% cynhyrchiant / cyflawni. Mae dau benodiad wedi'u gwneud, sef Prif Archwilydd ac Uwch-archwilydd, a fydd yn dechrau yn eu swyddi ym mis Mehefin 2018.</p>